Iesu'n dysgu Nicodemus

Ioan 3:1-21

Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o www.freebibleimages.org ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

	Disgrifiad	Llun	Nodiadau
	Iesu'n dysgu Nicodemus		
1	Un noson ar ôl iddi dywyllu daeth un o'r arweinwyr Iddewig at Iesu. Pharisead o'r enw Nicodemus oedd y dyn.		
2	Dwedodd Nicodemus wrth Iesu, "Rabbi, dŷn ni'n gwybod dy fod di'n athro wedi'i anfon gan Dduw i'n dysgu ni. Mae'r gwyrthiau rwyt ti'n eu gwneud yn profi fod Duw gyda ti."		
3	Dyma Iesu'n ymateb drwy ddweud hyn wrtho: "Cred di fi – all neb weld Duw'n teyrnasu heb fod wedi cael ei eni oddi uchod." (ei ail-eni)		

4	Roedd y syniad yma'n drysu Nicodemus. Geni oddi uchod! Ail-eni!	
5	“Sut gall unrhyw un gael ei eni pan mae'n oedolyn?” gofynnodd Nicodemus. “Allan nhw'n sicr ddim mynd i mewn i'r groth am yr ail waith i gael eu geni felly!”	
6	Atebodd Iesu, “Mae'r corff dynol yn rhoi genedigaeth i berson dynol, ond yr Ysbryd sy'n rhoi genedigaeth ysbrydol. Ddylet ti ddim synnu wrth i mi ddweud, ‘Rhaid i chi gael eich geni oddi uchod.’ (h.y. ein mam sy'n rhoi genediageth i'n corff ni ond Ysbryd Duw sy'n rhoi bywyd yn ein heneidiau - yn ein hysbryd).	
7	“Sut mae hynny'n gallu digwydd?” gofynnodd Nicodemus.	

8	“Dyma ti,” meddai Iesu, “yr athro parchus yng ngolwg pobl Israel, a ti ddim yn deall! Os dw i wedi siarad â chi am bethau sy'n digwydd ar y ddaear a dych chi ddim yn credu, sut byddwch chi'n credu os gwna i siarad am bethau'r byd nefol? Does neb wedi bod i'r nefoedd, a fi, Mab y Dyn ydy'r unig un sydd wedi dod o'r nefoedd.	
9	Cododd Moses neidr bres ar bolyn yn yr anialwch. Bydda i, Mab y Dyn, yn cael fy nghodi yr un fath.	
10	Bydd pawb sy'n credu ynof fi yn cael bywyd tragwyddol.	
11	“Ydy, mae Duw wedi caru'r byd cymaint nes iddo roi ei unig Fab, er mwyn i bwy bynnag sy'n credu ynddo beidio mynd i ddistryw ond cael bywyd tragwyddol.	
12	Oherwydd anfonodd Duw ei Fab i achub y byd, dim i gondemnio'r byd.	

13	Dyma'r dyfarniad: Mae golau wedi dod i'r byd, ond mae pobl wedi caru'r tywyllwch yn fwy na'r golau. Pam? Am eu bod nhw'n gwneud pethau drwg o hyd.	
14	Mae pawb sy'n gwneud pethau drwg yn casáu'r golau. Maen nhw'n gwrthod dod allan i'r golau rhag ofn i'w gweithredoedd gael eu gweld.	
15	Ond mae'r rhai sy'n ufudd i'r gwir yn dod allan i'r golau, ac mae'n amlwg mai Duw sy'n rhoi'r nerth iddyn nhw wneud beth sy'n iawn.”	
16	Cyfieithiad beibl.net	